# Y CABINET  DYDD MAWRTH, 11 MAWRTH 2025

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, Craig ab Iago, R. Medwyn Hughes, Dewi Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen a Paul Rowlinson.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen, (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol)
Eitem 7: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)
Eitem 8: Lowri Cadwaladr Roberts (Pennaeth Cynorthwyol Tai ac Eiddo)
Eitem 9: Gerwyn Jones (Pennaeth Adran Cynorthwyol – Amgylchedd)
Eitem 10: Gareth Jones (Pennaeth Adran Cynorthwyol – Amgylchedd )
Eitem 11: Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC)
Eitem 14: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a’r Swyddogion i’r cyfarfod gan yr Arweinydd.

Tynnwyd sylw at ddiwrnod rhyngwladol y merched dros y penwythnos gan gydnabod pwysigrwydd y diwrnod. Nodwyd bod y Cyngor yn annog datblygiad merched ar ffurf rhaglenni pwysig megis y Rhaglen Merched Mewn Arweinyddiaeth. Mynegwyd balchder yn y merched mewn gwleidyddiaeth gan dynnu sylw at yr Aelodau Cabinet sy’n ferched, Cadeirydd y Cyngor Beca Roberts ac Arweinydd yr wrthblaid Angela Russell. Cymerwyd y cyfle i nodi bod meddyliau pawb efo Arweinydd yr wrthblaid. Cydnabuwyd gwaith pob merch sy’n arwain mewn amryw o wahanol feysydd.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eitem 9: Derbyniwyd arweiniad gan y Swyddog Monitro bod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gorff cyhoeddus felly gofynnir i’r sawl sy’n aelodau o’r Cyd-bwyllgor i ddatgan hynny ond nad oes rhwystr iddynt gymryd rhan yn y drafodaeth. Datganodd y Cynghorwyr Nia Jeffreys a Craig ab Iago eu bod yn aelodau o’r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2025 fel rhai cywir. Diolchwyd am y cofnodion ag am waith y tîm Democratiaeth sy'n cofnodi gan gydnabod cywirdeb y cofnodion.

## 6. BIDIAU UN TRO 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys.

### PENDERFYNIAD

Yn dilyn sefydlu'r Gyllideb yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth, 2025, cytunwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r bidiau un tro o £2,057,260 ar gyfer 2025/26 sydd i'w cyllido o'r:

- £1,557,260 o gyllid ychwanegol yn y setliad terfynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 20 Chwefror 2025.
- £500,000 o Bremiwm Treth Cyngor at ddibenion llety dros dro i'r Digartref.

Yn dilyn cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru y bydd arian ychwanegol i'r maes gofal, yn ddarostyngedig ar fanylion ac amodau'r grant hwn, cytunwyd defnyddio'r ffynhonnell i ariannu'r bidiau yn y maes gofal.

### TRAFODAETH

Nodwyd bod y bidiau yn anorfod ond yn anffodus nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn gallu cefnogi bidiau datblygol na trawsffurfiol. Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai cronfa trawsffurfio'r Cyngor sy'n cael ei ddefnyddio fel arfer i gyllido'r bidiau un tro ond nad oes unrhyw arian ar ôl yn y gronfa hon i gyllido unrhyw fidiau eleni. Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid ychwanegol yn ddiweddar sydd ar gael i gyfrannu tuag at gostau'r bidiau un tro. Cydnabuwyd y bydd yr arian yma yn ddefnyddiol ond mynegwyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi ariannu Cyngor Gwynedd yn ddigonol yn y lle cyntaf.

Nodwyd bod y bidiau yn geisiadau am arian refeniw ond arian refeniw dros dro a'r gobaith yw dros y flwyddyn y bydd y gofyn dros dro yn un ai diflannu neu leihau.
Cyfeiriwyd at y tabl yn rhan 4.2 o'r adroddiad oedd yn rhestru'r bidiau, oedd yn gyfanswm o ychydig dros £2 filiwn. Tynnwyd sylw at y bidiau mwyaf costus sef Cludiant Addysg, gan egluro bod hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd yng nghostau tanwydd a cynnal a chadw cerbydau a'r cynnydd yn y niferoedd sydd angen cludiant i'r ysgolion. Gobeithir y bydd y gost yn llai flwyddyn nesaf yn dilyn adolygiad yn y maes.

Esboniwyd bod y bid am gostau llety argyfwng digartref yn swm o hanner miliwn a bod hefyd bid am £115,000 ar gyfer gweithwyr ychwanegol yn sgil derbyn Ceiswyr Lloches heb rieni fel rhan o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol, sy'n achos trist ond teilwng iawn.

Adroddwyd bod opsiynau i ariannu'r bidiau wedi eu hystyried ond nad oedd digon o arian refeniw a bod cronfeydd corfforaethol wrth gefn y Cyngor wedi lleihau yn sylweddol a bod angen ceisio eu gwarchod. Nodwyd er i gronfa Adrannol fod yn briodol

ar gyfer bid yr Adran Tai ac Eiddo, nid oedd cronfeydd Adrannol priodol yn bodoli ar gyfer y bidiau eraill. Yn sgil hyn awgrymwyd i ¾ y bidiau gael eu hariannu drwy'r cyllid ychwanegol gan y Llywodraeth a'r ¼ arall i gael eu hariannu o'r unig gronfa Adrannol briodol sydd ar ôl sef cronfa'r Premiwm Treth Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Ynglŷn â'r bid Cludiant Addysg, gwnaethpwyd sylw os nad yw'r Cyngor yn fodlon talu a chefnogi'r bid yna fod hyn yn golygu fod plant ddim yn cael mynediad i addysg. Cydnabuwyd bod gôr-wario yma ond o bosib ei bod yn fater o dan-gyllido'r gwasanaeth. Credwyd nad yw gwario'r arian yma yn opsiwn. Gobeithir na fydd yr Adran yn y sefyllfa yma flwyddyn nesaf a bod opsiynau eraill yn cael eu hystyried ar hyn o bryd er mwyn gwneud pethau'n fwy effeithlon a chael y gwerth gorau am arian.
- Mynegwyd cefnogaeth am yr holl fidiau gan Aelod ond mynegwyd nad oedd yn cefnogi defnyddio'r Cynllun Gweithredu Tai i ariannu'r costau llety argyfwng Digartrefedd. Pryderwyd bod tynnu'r arian hwn allan o'r Cynllun Gweithredu Tai yn mynd i olygu na all y Cynllun Gweithredu Tai gyflawni cystal a cwestiynwyd beth felly fydd yn cael ei dorri allan o'r Cynllun Gweithredu Tai. Ychwanegwyd nad yw'n gronfa ariannol i bwrpas ariannu tan-gyllido gan nodi bod atal digartrefedd yn wasanaeth statudol. Credwyd bod yr Adran Dai yn cael ei thrin yn wahanol gan fynegi bod yr Adran wedi llwyddo i leihau costau Digartrefedd trwy waith ataliol. Oherwydd y rhesymau uchod penderfynodd yr Aelod atal ei bleidlais.
- Pryderwyd y bydd costau ychwanegol yn y maes Digartrefedd yn y dyfodol agos o ganlyniad i gyhoeddiad y papur gwyn gan y Llywodraeth. Nododd yr Aelod Cabinet y byddai yn ysgrifennu at y gweinidog a bod Penaethiaid Tai Cymru wedi ysgrifennu at y Llywodraeth i fynegi eu pryderon am gynnwys y papur gwyn.
    - Cytunwyd â'r sylwadau ar y papur gwyn gan nodi nad yw'r Cyngor yn ymwybodol o beth fydd oblygiadau ariannol y papur gwyn ar hyn o bryd.
    - Cydymdeimlwyd â safbwynt yr Aelod gan gydnabod mai nid hyn yw'r ateb delfrydol ond bod y sefyllfa yn un anodd ac arian ychwanegol y Llywodraeth ddim digon i ariannu'r holl fidiau un-tro.
    - Ychwanegwyd pan fydd adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Tai y gellir ystyried bryd hynny beth i'w dynnu allan. Awgrymwyd hefyd efallai bydd opsiynau yn y dyfodol i ad-dalu'r arian hwn yn ôl i gronfa'r Cynllun Gweithredu Tai.

**7. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 – ASESIAD PERFFORMIAD PANEL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd ar amserlen ar gyfer cynnal Asesiad Perfformiad Panel yn ystod wythnos 9fed o Fawrth, 2026.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan egluro bod yr asesiad perfformiad panel oedd wedi ei gynllunio ar gyfer Tachwedd 2024 wedi cael ei ohirio ac o ganlyniad bod angen i'r Cabinet gytuno ar amserlen newydd ar gyfer cynnal yr asesiad. Eglurwyd bod yr adroddiad yn mynd ymlaen i drafod cwmpas yr asesiad ac aelodaeth y Panel.

Ychwanegodd Rheolwr Cefnogi Busnes y Cyngor bod hwn yn ofyn statudol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Eglurwyd y bydd yr asesiad gan banel yn edrych ar y graddau y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol ac yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus ac effeithlon.

Eglurwyd bod y ddogfen gwmpasu wedi ei chreu yn ystod Haf 2024 ond y bydd y ddogfen bellach wedi dyddio am fod yr asesiad wedi ei ohirio. Awgrymwyd ail ymweld â'r ddogfen gwmpasu ar ddiwedd blwyddyn galendr 2025. Tynnwyd sylw at dudalen 22 o'r adroddiad sy'n amlygu'r meysydd awgrymwyd i'r panel ganolbwyntio arnynt yn flaenorol. Yn ychwanegol atgoffwyd y Cabinet bod aelodaeth y panel wedi ei gytuno nôl ym mis Medi 2024 a credwyd y byddai'n ddoeth aros tan ddiwedd y flwyddyn galendr i gadarnhau'r aelodaeth er mwyn sicrhau addasrwydd aelodau'r panel.

Eglurwyd y bydd y panel yn ymweld am gyfnod o wythnos ac yn cynnal gweithdai a chyfweliadau; nodwyd y bydd gofyn i'r Aelodau Cabinet fod yn rhan o'r trafodaethau. Cadarnhawyd y bydd cyflwyniad ar ddiwedd yr wythnos i'r Aelodau Cabinet ar brif ganfyddiadau'r arolwg cyn adrodd y canfyddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn cyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cwestiynwyd os oes gwerth i'r asesiad hwn a'i fod yn ymddangos fel haen ychwanegol o oruchwyliaeth. Holwyd i ble mae'r argymhellion yn cael eu cyflwyno.
    - Mewn ymateb nodwyd nad oes llawer o ddewis i wrthod yr asesiad gan obeithio y bydd gwerth iddo. Awgrymwyd efallai y bydd cyfle yn y dyfodol i Wynedd fynd i edrych ar Gynghorau eraill a chyfle i ddysgu.

## 8. PRYDLESU CYN SAFLE YSGOL ABERSOCH I FENTER RABAR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Paul Rowlinson

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i ddefnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i brydlesu safle Ysgol Abersoch yn uniongyrchol i Fenter Rabar am lai na rhent y farchnad, er mwyn gwireddu buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn deillio o sefyllfa drist o orfod cau Ysgol Abersoch nol yn 2021. Eglurwyd pan fod ysgol yn cau bod gan y Cyngor bolisi o gynnig y safle i'r gymuned leol am bris gostyngol. Nodwyd bod cymuned Abersoch wedi sefydlu Menter Rabar, hwb amlbwrpas fyddai'n cynnwys caffi cymunedol, arddangosfa dreftadaeth, unedau busnes i'w gosod, gardd gymunedol ac ystafell aml-ddefnydd ei mwyn cynnal gweithgareddau a chyrsiau.

Eglurwyd bod y Fenter eisoes wedi sicrhau caniatâd cynllunio ac wedi derbyn arian grant a sicrhau arian ychwanegol drwy ffynonellau amrywiol. Adroddwyd bod yr Aelod Lleol yn gefnogol iawn o'r Fenter, fel sydd wedi ei nodi yn sylwadau'r Aelod ar dudalen 46 o'r Rhaglen.

Esboniwyd pam bod angen cynnig prydles am gyfnod o 99 mlynedd, gan egluro bod amodau Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen i Fenter Rabar dderbyn prydles hirdymor gan y Cyngor cyn rhyddhau'r arian grant. Amlygwyd y penderfyniad i beidio rhoi'r eiddo ar y farchnad agored a hepgor oddeutu £150,000; credwyd y byddai'r Fenter yn dod a buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol i gymuned Abersoch.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Mynegwyd cefnogaeth i Fenter Rabar gan nodi fod prosiectau fel hyn yn dda i Wynedd. Credwyd bod Gwynedd yn arwain y ffordd yn y sector gymunedol a bod potensial i ddenu ymwelwyr ac incwm yma yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ddiwylliant a threftadaeth yr ardal.
- Datganwyd cefnogaeth i'r cynnig gan gredu y bydd buddion amlwg i'r ardal a'r gymuned o ganlyniad i'r fenter hon a credwyd ei bod yn wych fod Abersoch yn cael y cyfle yma.
- Credwyd bod mentrau o'r fath yn gweithio'n dda ac yn tynnu cymunedau at eu gilydd ac yn rhoi cyfleon cymdeithasol i drigolion yr ardal.
- Ategwyd y sylwadau uchod gan fynegi llongyfarchiadau a diolch i Fenter Rabar am eu gwaith.

**9. CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL – DIWEDDARIAD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd cydnabyddiaeth o ddatblygiad y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) drafft a'r prosesau cysylltiedig â hyn.

Cymeradwywyd yr ymateb (Atodiad 5) i'r ymgynghoriad.

**TRAFODAETH**

Mynegwyd barn wleidyddol bod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn creu haen arall o fiwrocratiaeth a phryderwyd na fydd llawer o Gymraeg yn cael siarad yn Is-bwyllgorau Trafnidiaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Cwestiynwyd os yw'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnig unrhyw beth newydd.

Ychwanegodd Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd mai'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hon fydd cynnyrch cyntaf Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd. Esboniwyd bod tebygolrwydd y bydd y 4 Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru yn debyg iawn am eu bod angen cyrraedd yr un math o griteria gan y Llywodraeth.

Tynnwyd sylw at atodiad 1 sy'n rhestru Cynlluniau Gwynedd gan nodi fod gan Wynedd 64 o gynlluniau yn y Cynllun Cyflawni ac esboniwyd bod y cynlluniau wedi eu blaenoriaethu fel rhai uwch, canolig neu is.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Holwyd os oes unrhyw beth all yr Aelodau Cabinet ei wneud i gynorthwyo'r broses ymgysylltu ac amlygu ei bwysigrwydd.
  - Cadarnhawyd bod yr ymgynghoriad ar agor tan 14 Ebrill ond ei fod yn ymgynghoriad technegol a manwl iawn ac yn cynnwys llawer o wybodaeth strategol. Adroddwyd bod datganiad i'r wasg eisoes wedi ei gyhoeddi ac anogwyd trigolion Gwynedd i gymryd y cyfle i roi eu barn. Ychwanegwyd y bydd ymgynghoriadau pellach a mwy penodol i ddilyn.
- Gwnaethpwyd sylwadau am y rhwystredigaeth efo trafnidiaeth gyhoeddus yr ardal yn enwedig ardaloedd gwledig y Sir. Nodwyd nad oes digon o fysiau yn rhedeg a'u bod yn gallu bod yn ddrud i'w defnyddio. Amlygwyd bod rhaid derbyn arian gan y Llywodraeth i gyd fynd a'r cynlluniau er mwyn eu cyllido a'u gwireddu.
- Cwestiynwyd os yw'r Cynllun hwn yn debyg o godi gobeithion trigolion a holwyd faint o'r cynlluniau sy'n debygol o gael eu gwireddu o fewn y Sir.
  - Esboniwyd nad oes modd gwybod ar hyn o bryd faint o'r cynlluniau sy'n debygol o gael eu gwireddu. Pwysleisiwyd os nad yw'r cynlluniau wedi eu nodi yn y Cynllun hwn nad oes gobaith o dderbyn arian i'w gwireddu. Ategwyd ei bod yn bositif fod y cynlluniau wedi eu cynnwys yn y Cynllun hwn a bydd rhaid i'r Cyngor geisio gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd posib.
  - Nodwyd bod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd a Thrafnidiaeth Cymru efo perthynas iach ac yn cyd-weithio'n dda.
- Diolchwyd i swyddogion yr Adran am eu gwaith.

## 10. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod agwedd a pherfformiad yr Adran yn galonogol. Tynnwyd sylw at bump o flaenoriaethau'r Adran yng Nghynllun y Cyngor gan nodi bod yr Adran yn arwain drwy Brydain ar rai o'r blaenoriaethau er enghraifft y gwaith efo rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

Tynnwyd sylw at y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu gan nodi bod niferoedd yr ymholiadau sy'n ymwneud â methu casgliadau gwastraff wedi lleihau dros y flwyddyn gyfredol fel sydd i'w weld yn Ffigwr 1 yn yr adroddiad. Amlygwyd bod targed ailgylchu'r Llywodraeth wedi cynyddu i 70% a'i bod yn annhebygol y bydd yr Adran yn cwrdd â'r targed eleni. Serch hyn nodwyd bod y Strategaeth Wastraff newydd ar gyfer 2025-2023 ar ffurf drafft ar hyn o bryd a bydd gweithredu'r Strategaeth hon yn golygu cyrraedd y targed. Ategwyd y bydd y Strategaeth Wastraff yn dod ger bron y Cabinet ym mis Mai neu Fehefin.

Cyfeiriwyd at yr heriau yn y gwasanaeth Bwyd a Diogelwch fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad gan amlygu bod dros 2,000 o fusnesau bwyd yn y Sir. Nodwyd bod llawer o staff cymwys a profiadol wedi gadael neu ymddeol yn ddiweddar sydd wedi gadael bwlch yn y gwasanaeth. O ganlyniad i'r heriau o ran staffio a phwysigrwydd buddsoddi

yn hyfforddiant swyddogion a chysgodi staff profiadol, mynegwyd bod yr Adran yn ceisio am hyfforddai proffesiynol Iechyd Amgylchedd eleni.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:
- Mynegwyd bod y problemau recriwtio yn themâu cyson a phwysleisiwyd pwysigrwydd cynlluniau fel y Cynllun Hyfforddeion.
- Gofynnwyd beth yw canlyniad methu cyrraedd y targed ailgylchu.
    - Mewn ymateb nodwyd y byddai methu cyrraedd y targed yn golygu risg o ddirywion i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru.
- Credwyd bod angen buddsoddi mewn hyfforddi ac addysgu trigolion y Sir ar bwysigrwydd ailgylchu.
    - Cytunwyd bod hyn yn allweddol ac eisoes wedi ei adnabod fel maes sydd angen sylw.
- Holwyd beth yw'r camau nesaf o ran y Strategaeth Wastraff.
    - Eglurwyd y bydd y Strategaeth yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet ar gyfer caniatâd i fynd i ymgynghoriad cyhoeddus cyn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad a gofyn i fabwysiadu'r Strategaeth. Yn dilyn derbyn caniatâd bydd y Strategaeth yn cael ei gweithredu.
- Tynnwyd sylw at yr ymarferion 'pryniant prawf' sydd wedi ei nodi yn rhan 5.2.5 o'r adroddiad gan nodi ei fod yn galonogol bod y tîm yn ceisio sicrhau nad yw siopau yn gwerthu tân gwyllt i blant dan oed. Holwyd os oes rheoliadau tebyg yn ymwneud a gwerthiant 'vapes'.
    - No diwyd bod ymdrin â risgiau sy'n deillio o werthiant 'vapes' yn rhan o brosiect sydd yn un o flaenoriaethau'r gwasanaeth ac ar draws Gymru yn ogystal â gwerthiant tybaco anghyfreithlon. Ategwyd bod y tîm yn ceisio atal gwerthiant y deunyddiau i bobl dan oed yn ogystal â cheisio atal deunydd anghyfreithlon gael eu gwerthu. Nodwyd bod hyn yn golygu llawer o waith dydd i ddydd i'r tîm; ychwanegwyd hefyd bod angen gwarchod busnesau yn ogystal â defnyddwyr.

## 11. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BRIFFYRDD, PEIRIANNEG AC YGC

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. June Jones

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y bydd yn amlinellu'r hyn sydd wedi ei gyflawni o fewn yr Adran fel rhan o flaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 ac yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa ariannol a'r cynlluniau arbedion. Adroddwyd bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud gyda phrosiectau Cynllun y Cyngor ac er bod yr Adran yn parhau i wynebu heriau mynegwyd hyder fod gan yr Adran gynlluniau addas i gyfarch y sefyllfa hyd eithaf ei gallu.

Rhedwyd drwy'r tabl yn Atodiad 1 sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd tri phrosiect blaenoriaeth yr Adran yng Nghynllun y Cyngor sef Cymunedau Glas a Thaclus, Gweithredu ar Risgiau Llifogydd ac Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar

gyfer plant a phobl ifanc y Sir. Darparwyd trosolwg o'r prosiectau gan nodi beth sydd ar y gweill a'r diweddariad hyd at fis Mawrth 2025.

Tywyswyd Aelodau'r Cabinet trwy weddill yr adroddiad oedd yn manylu ar berfformiad gwasanaethau'r Adran. I gloi tynnwyd sylw at sefyllfa ariannol yr Adran gan nodi y rhagwelir gorwariant o tua £700,000 eleni sy'n gyfuniad o ffactorau megis lleihad mewn incwm a phwysau ychwanegol ar gyllidebau glanhau strydoedd a glanhau toiledau cyhoeddus.

Ychwanegwyd bod teimlad gwych o fewn yr Adran ble mae'r staff yn frwdfrydig ac yn cymryd gwir ddiddordeb yn eu gwaith. Diolchwyd i staff yr Adran am eu hymroddiad.

Mynegodd y Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC ei ddiolch i'r Aelod Cabinet am fynd o amgylch holl wasanaethau'r Adran er mwyn cyflwyno ei hun a dysgu am waith yr Adran. Ychwanegwyd bod yr Adran yn wynebu heriau ariannol sylweddol ond yn gwneud eu gorau i leihau'r gorwariant ac efo cynlluniau arbedion ac yn hyderus y bydd gwerth £278,500 o arbedion yn cael eu cyflawni flwyddyn yma.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cydnabuwyd gwaith da'r Adran a diolchwyd am hynny.
- Ynglŷn â gorfodaeth stryd a'r graff yn yr adroddiad, gofynnwyd sut mae'r Cyngor yn cymharu â Chynghorau eraill a gofynnwyd pam bod gwahaniaeth sylweddol yn ffigurau'r Haf o gymharu â ffigyrau'r Gaeaf.
    - Mewn ymateb esboniwyd bod y tîm dan bwysau o ran lefelau staff. Esboniwyd bod y graff ar dudalen 102 yn benodol ar faw cŵn a dim ysbwriel. Ymhelaethwyd ei bod yn anodd cosbi am droseddau baw cŵn am ei bod yn anodd dal y person ar y pryd. Tynnwyd sylw at y gwelliant sylweddol sydd wedi bod hyd yma eleni.
    - Nodwyd nad yw'r wybodaeth ar gael ar hyn o bryd er mwyn gwneud cymhariaeth efo awdurdodau eraill ond gall y Pennaeth Adran ddarganfod y wybodaeth yno.
- Tynnwyd sylw at y diffyg buddsoddiad mewn caeau chwarae dros y blynyddoedd. Dymunwyd codi ymwybyddiaeth bod grwpiau cymunedol yn gallu ymgeisio am grantiau i wella caeau chwarae.
    - Atgoffwyd bod 131 o gaea chwarae ar draws y Sir a cydnabuwyd bod angen gwella cyfleusterau ar gyfer defnydd cadair olwyn yn y caeau chwarae. Nodwyd bod y gwasanaeth yn ail edrych ar y strategaeth ond fod arian yn brin ar gyfer y ddarpariaeth yma. Ategwyd bod y gwasanaeth yn hapus i drafod efo Cynghorau Cymuned a bod bwriad i gysylltu efo Cynghorau Cymuned yn y dyfodol wrth symud y gwaith yn ei flaen.
- Mynegwyd diolchiadau i dîm tacluso Ardal Ni, yn benodol tîm David Charles Williams am eu gwaith.
- Gofynnwyd a oes bwriad i ymestyn y cynllun 'person a chart' ymhellach i ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd.
    - Cadarnhawyd bod y cynllun ar waith ym Mangor a Chaernarfon ar hyn o bryd a bod bwriad i'w ymestyn i ardal Dwyfor (Pwllheli a Porthmadog) yn fuan. Nodwyd bod trefniadau tebyg mewn rhai ardaloedd ym Meirionydd e.e. glanhawr tref hanesyddol efo oriau traddodiadol o gychwyn yn fuan yn y bore. Cadarnhawyd bod trafodaethau ar y gweill i newid yr oriau fel bod yr oriau yn oriau mwy gweledol.

- Mewn ymateb i gwestiwn am heriau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ag os yw hyn wedi effeithio ar y cyd-weithio efo'r Adran, cadarnhawyd nad oes effaith wedi ei weld hyd yma ar unrhyw brosiect ar y cyd nac dim i awgrymu unrhyw effaith ar gynlluniau yn symud yn eu blaen.

## 12. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi bod yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd yn gyfrifol am ddau brosiect o fewn Cynllun y Cyngor. Darparwyd diweddariad ar y prosiectau hyn sef y Cynllun Awtistiaeth a'r Cynllun Cartrefi Grŵp Bychan. Manylwyd ar y cynnydd sydd wedi ei wneud a nodi'r gwaith sydd ar y gweill.

Manylwyd ar heriau sy'n cael effaith ar berfformiad y gwasanaethau megis capasiti'r gweithlu. Cyfeiriwyd at yr ymdrechion sy'n cael ei gwneud i wella'r sefyllfa gan nodi bod prosiect Cynllunio'r Gweithlu a Gofalwn Cymru yn cynnal ymgyrchoedd recriwtio. Nodwyd hefyd bod cynnydd yn y galw a bod natur achosion yn dangos fod anghenion plant a theuluoedd yn cymhlethu ac yn dwysau. Pryderwyd bod llwyth gwaith staff yr Adran yn uchel ac ddim yn gynaliadwy nac yn iach yn y tymor hir.

I gloi crynhowyd sefyllfa ariannol yr Adran sydd bellach yn £3.7 miliwn o orwariant o ganlyniad i gynnydd yng nghostau lleoliadau all-sirol a chyfeiriwyd at gynlluniau arbedion yr Adran. Diolchwyd i holl staff yr Adran am eu gwaith gan nodi bod y gwaith yn heriol ac yn eang.

Ychwanegodd y Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd bod sefyllfa'r gweithlu wedi gwella rhywfaint dros y blynyddoedd ond yn bryder parhaus. Nodwyd nad oes unrhyw swyddi parhaol gwag ar hyn o bryd dim ond swyddi dros dro o ganlyniad i gyfnodau mamolaeth. Ychwanegwyd bod yr Adran yn hybu datblygiad staff ac yn gefnogol i roi cyfleoedd a phrofiadau i staff o fewn gwasanaethau'r Adran.

Nodwyd ei bod yn anodd denu Gweithwyr Cymdeithasol cymwysedig a bod y niferoedd ar y cyrsiau wedi gostwng. Credwyd y byddai'r gwaith Academi Gofal yn gwneud gwahaniaeth i broblemau staffio rhai o'r gwasanaethau.

Cydnabuwyd buddion y cynlluniau Cartrefi Gofal Bychain gan nodi y byddant yn bositif i'r gyllideb wrth ddiwallu anghenion yn lleol ac edrychwyd ymlaen i'r plant ddychwelyd yn ôl i'w cynefin. Cymerwyd y cyfle i ddiolch i gymuned Morfa Bychain am y croeso ac am y cydweithio arbennig efo Ysgol Eifionydd. Gobeithiwyd ail adrodd yr esiampl yma efo'r tai eraill.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Llongyfarchwyd yr Adran am y gwaith ar y Cartrefi Gofal Bychain gan nodi ei fod yn newyddion gwych. Nodwyd bod y gwaith yn cael effaith bositif ar blant ac ymfalchïwyd bod rhai eisoes wedi dychwelyd yn ôl i'w cynefin a mynegwyd balchder bod cynlluniau eraill ar y gweill.
- Cydnabuwyd gwaith gwych yr Academi Gofal a'r ymdrech recriwtio a diolchwyd i Gwenno Williams, Swyddog Marchnata a Datblygu Gyrfaoedd Gofal am ei gwaith a mynegwyd llongyfarchiadau iddi am dderbyn anrhydedd mewn gwobr gan Gyrfa Cymru.
- Pryderwyd am y lleihad yn y niferoedd sy'n cwblhau cyrsiau Gwaith Cymdeithasol ym Mangor a cwestiynwyd os oes risg i'r cwrs gael ei ddiddymu os oes llawer o lefydd gwag arno.
    - Mewn ymateb nodwyd nad oes trafodaethau i ddod a'r cwrs i ben ym Mangor ond yn hytrach trafodaethau ar sut i ddenu mwy i fod eisiau cwblhau'r cymhwyster Gwaith Cymdeithasol. Ategwyd hefyd bod yr Adran am benodi tair swydd Gweithiwr Cymdeithasol newydd o ganlyniad i fid ariannol llwyddiannus; credwyd y bydd y swyddi yma yn gwneud lles i lwyth gwaith a llesiant staff presennol yr Adran.

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 3:10pm

**CADEIRYDD**